**PWYLLGOR CYNLLUNIO 13eg o Orffennaf 2026**

**Presenoldeb:** Cadeirydd**:** Cyng. Huw Rowlands
Is-gadeirydd: Cyng. Edgar Owen

**Y Cynghorwyr:**
Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Louise Hughes, Elin Hywel, Berwyn Parry Jones, Gareth T Jones, Anne Lloyd Jones, Cai Larsen, Dafydd Meurig, Gareth Coj Parry, a Gruffydd Williams

**Aelod Lleol:** Cynghorydd Menna Trenholme

**Swyddogion:** Dafydd Williams (Pennaeth Amgylchedd), Gwawr Hughes (Rheolwr Cynllunio), Elan Mared Lloyd (Uwch Swyddog Cynllunio), Rhys Cadwaladr (Uwch Swyddog Cynllunio Mwynau a Gwastraff), Dafydd Jones (Cyfreithiwr), a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr John Pughe Roberts a Dyfrig Siencyn

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

a) Datganodd y Cynghorydd Cai Larsen fuddiant yn eitem 5.2 (C25/0671/14/LL) oherwydd ei fod yn Gadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Syr Hugh Owen. Roedd yr Aelod o'r farn ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac felly gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y cais.

Datganodd y Cynghorydd Huw Rowlands fuddiant yn eitem 5.4 (C24/0323/14/LL) a 5.5 (C24/0755/19/LL) oherwydd ei fod wedi cyflwyno sylwadau ar y ceisiadau. Roedd yr Aelod o'r farn ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac felly gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y ceisiadau.

b) Datganodd Dafydd Williams (Pennaeth Amgylchedd) fuddiant yn eitem 5.1 (C26/0238/15/LL) oherwydd ei fod yn byw yn yr un ardal. Roedd y swyddog o'r farn ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac felly gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y cais.

c) Datganodd yr Aelodau canlynol eu bod yn Aelodau Lleol mewn perthynas â'r eitem a nodir:

Y Cynghorydd Elwyn Edwards (oedd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.3 (C24/1032/04/LL) ar y rhaglen

Y Cynghorydd Menna Trenholme (nad oedd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.4 (C24/0323/14/LL) a 5.5 (C24/0755/19/LL) ar y rhaglen.

Y Cynghorydd Cai Larsen (oedd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.4 (C24/0323/14/LL) a 5.5 (C24/0755/19/LL) ar y rhaglen.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 15 o Fehefin 2026 fel rhai cywir

## 5. CEISIADAU CYNLLUNIO

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ceisiadau canlynol i'w datblygu. Ymhelaethwyd ar fanylion y ceisiadau ac ymatebwyd i gwestiynau mewn perthynas â'r cynlluniau ac agweddau o'r polisïau.

### 5.1 CAIS RHIF: C26/0238/15/LL Tir gyferbyn a 10 Warden Street, Llanberis

Codi tŷ annedd newydd

a) Amlygodd yr Uwch Swyddog Cynllunio Mwynau a Gwastraff bod y cais wedi ei gyflwyno gerbron Pwyllgor Cynllunio 15fed Mehefin 2026, lle gohiriwyd penderfyniad er mwyn cynnal ymweliad safle. Cynhaliwyd ymweliad safle ar yr 8fed o Orffennaf 2026.

   Nodwyd mai cais llawn ydoedd ar gyfer codi annedd deuluol o ddyluniad deulawr ar wahân, gyda thalcen yr eiddo yn wynebu'r ffordd gyhoeddus; y tŷ arfaethedig o ddyluniad to brig modern wedi ei adeiladu i mewn i'r llethr. Byddai'n mesur oddeutu 7.2m o uchder i fan uchaf y to, gyda balconi ar deras sylweddol yn cael ei osod i gefn yr eiddo fydd yn ymestyn allan oddeutu 2.5m ac yn gwasanaethu'r llawr.

   Gwrthodwyd cais am eiddo unigol ar y safle hwn (26.02.2026) o dan gyfeirnod C25/0927/15/LL. Er bod rhai newidiadau wedi'u gwneud i gynlluniau'r cais presennol, gan gynnwys dileu dau agoriad llawr cyntaf oedd yn wynebu'r eiddo drws nesaf a lleihau maint y balconi fel nad yw'n ymestyn allan heibio edrychiad ochr y tŷ, roedd maint a gosodiad yr eiddo yn parhau yn gyffredinol yr un fath o ran maint a graddfa.

   Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio am benderfyniad ar gais yr Aelod Lleol.

   Cyfeiriwyd at Polisi TAI 15 o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) sy'n datgan y bydd Cynghorau yn ceisio sicrhau lefel briodol o dai fforddiadwy yn ardal y cynllun. Dau neu fwy o unedau tai yw'r trothwy, ond gan mai dim ond un uned sydd yn cael ei gynnig yn yr achos hwn, nid yw Polisi TAI 15 yn berthnasol ac nid yw'n angenrheidiol darparu elfen fforddiadwy.

   Yng nghyd-destun mwynderau gweledol nodwyd bod Polisi PCYFF 3 yn ei wneud yn ofynnol i ddatblygiadau fod o ddyluniad o ansawdd uchel sy'n parchu a chyd-fynd â chymeriad a chyd-destun yr ardal. Yn yr achos hwn, ystyriwyd nad yw'r tŷ arfaethedig yn adlewyrchu dyluniad traddodiadol y tai teras cyfagos ar Stryd Warden. Er bod y dyluniad wedi cael ei addasu rhywfaint ers y cais blaenorol, mae ei swmp, ei uchder a'i nodweddion mwy cyfoes yn parhau i ymddangos yn anghymesur ac allan o gymeriad gyda'r amgylchedd lleol. Yn ogystal, oherwydd bod y safle ar lethr, byddai'r annedd yn eistedd yn uwch na'r tai cyfagos ac felly'n sefyll allan yn y dirwedd. O ganlyniad, ystyriwyd y byddai'r adeilad yn creu effaith ormesol ac ni fyddai'n ymdoddi'n naturiol i'r strydwedd na'r dirwedd o'i gwmpas. Nid yw'r bwriad felly yn ychwanegu na gwella cymeriad na golwg yr ardal, ac mae'n groes i ofynion polisi PCYFF 3. Er bod rhai deunyddiau'n ceisio cyfeirio at y dirwedd hanesyddol, ystyriwyd y gallai dyluniad mwy sensitif i'r safle gael ei gyflwyno.

O safbwynt mwynderau cyffredinol a phreswyl, cyfeiriwyd at bryderon sylweddol ynghylch effaith y datblygiad ar eiddo cyfagos. Er bod y balconi arfaethedig, wedi'i leihau, mae'n parhau'n nodwedd amlwg ar gefn yr eiddo ac yn debygol o achosi problemau gor-edrych a phreifatrwydd - y risgiau hyn yn effeithio'n benodol ar drigolion y capel cyfagos a Rhif 10 Stryd Warden.

Yn ogystal, ystyriwyd bod lleoliad a gosodiad yr eiddo yn golygu y bydd symudiadau i mewn ac allan o'r tŷ newydd yn digwydd mewn bwlch cul ger Rhif 10, yn hytrach na thuag at y stryd fel gweddill y tai. Byddai hyn yn creu ymdeimlad gormesol ac yn effeithio'n negyddol ar fwynderau preswyl yr eiddo hwnnw. O ganlyniad, ystyriwyd bod y cynnig yn cael effaith annerbyniol ar drigolion cyfagos ac felly'n groes i ofynion Polisi PCYFF 2.

Ystyriwyd bod y mesurau gwella bioamrywiaeth a gynigiwyd, oedd yn cynnwys plannu coed a gosod blychau adar ac ystlumod, yn bodloni gofynion polisïau PS 19 ac AMG 5. Yng nghyd-destun materion draenio, cyflwynwyd a chymeradwywyd cais SUDS - y bwriad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio gyda gofynion NCT 15.

Er na dderbyniwyd sylwadau gan yr Uned Drafnidiaeth, gan mai un annedd yn unig oedd yma, ni ystyriwyd y byddai'r datblygiad yn cael effaith annerbyniol ar ddiogelwch na gweithrediad y rhwydwaith ffyrdd; y cais yn darparu tri lle parcio ar gyfer yr eiddo, ac felly'n cydymffurfio â gofynion polisïau TRA 2 a TRA 4 y CDLl.

Eglurwyd y byddai'r eiddo yn darparu tŷ teuluol i berson lleol o'r pentref ac felly ni ystyriwyd y byddai'n niweidiol i'r Iaith Gymraeg. Nodwyd bod modd gosod amod, pe byddai'r cais yn cael ei ganiatáu, i sicrhau enw Cymraeg i'r annedd, i gydymffurfio a gofynion polisi PS 1.

Roedd y Swyddogion Cynllunio yn argymell gwrthod y cais gan nad oedd y datblygiad arfaethedig yn dderbyniol yn ei ffurf bresennol. Er bod rhai agweddau o'r cynllun yn dderbyniol, ystyriwyd bod effaith y datblygiad ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardal, ynghyd â'i effaith ar fwynderau eiddo cyfagos, yn golygu nad oedd y cynnig yn bodloni gofynion y polisïau perthnasol yn llawn.

b) Cynigiwyd ac eiliwyd gwrthod y cais yn unol â'r argymhelliad

c) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:
- Bod y dyluniad yn edrych yn rhy fawr i'r safle
- Bod angen dyluniad cywir i'r safle

**PENDERFYNWYD: Gwrthod**

**Rhesymau:**

1. **Nid yw dyluniad modern yr annedd arfaethedig, gyda'r balconi eang a'r drysau/ ffenestri gwydr ar y drychiad blaen a chefn, yn parchu cymeriad tai cyfagos na'r hyn sydd yn y cyffiniau a byddai'r nodweddion yn anghydnaws. Ni fyddai'r bwriad yn ychwanegu at na gwella cymeriad ac ymddangosiad y safle na'r ardal. Nid yw'r bwriad wedi rhoddi ystyriaeth lawn i'w gyd-destun hanesyddol ac adeiledig a'i fod o ran ei osodiad, ymddangosiad, graddfa, uchder, mas a'r driniaeth i'r drychiadau yn cynnwys nodweddion anghydweddol, dominyddol ac estron nad ydynt yn parchu cyd-destun y strydwedd na'r safle. Ystyrir fod y bwriad felly, yn groes i feini prawf 1, 2 a 3 o Bolisi PCYFF 3: Dylunio a siapio lle, Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (2011-2026).**

2. **Oherwydd lleoliad, maint ac uchder y balconi a blaen yr annedd arfaethedig sy'n wynebu'r eiddo drws nesaf, ystyrir y byddai'r bwriad yn gor-edrych a chael effaith ddominyddol a gormesol ac effaith andwyol ar fwynderau'r trigolion cyfagos o ran sŵn ac aflonyddwch. Am y rheswm hwn, ystyrir fod y bwriad yn groes i ofynion polisi PCYFF2 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (2011-2026) sy'n ymwneud a diogelu mwynderau trigolion a'r ardal leol.**

**5.2 CAIS RHIF C25/0671/14/LL Ysgol Syr Hugh Owen Ffordd Bethel, Caernarfon**

Codi ffens newydd 2400mm o uchder o gwmpas rhan o ffin cae chwarae Ysgol Syr Hugh Owen

a) Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio oherwydd bod yr Aelod Lleol wedi datgan buddiant ac wedi darparu sylwadau ar y cais.

Amlygwyd bod sylwadau o'r ymgynghoriad statudol a chyhoeddus yn cyfeirio fwyaf at bryderon yn deillio gan gymdogion yn nodi ei fod yn ddatblygiad di angen, fyddai'n creu effaith weledol, effaith ar fwynderau preswyl ac effaith ar hawliau dynol. Derbyniwyd llythyr hefyd yn cefnogi'r ffens oherwydd bod problemau gyda thaflu cerrig, tresmasu ar eiddo preifat a sbwriel yn cael ei daflu i mewn i erddi.

Cyfeiriwyd at Polisi ISA 2, sy'n ymwneud â chyfleusterau cymunedol sy'n cynnwys ysgolion, ac sy'n nodi y bydd y CDLl yn cynorthwyo i gynnal a gwella cyfleusterau cymunedol. Byddai'r bwriad yn cael ei leoli ar ffiniau ysgol bresennol a bod angen y ffens o gwmpas yr adeilad er mwyn gwella diogelwch o fewn tir yr ysgol. O ran yr egwyddor ystyriwyd bod y bwriad yn un rhesymol ac yn cyd-fynd gydag egwyddor Polisi ISA 2 CDLl.

Bydd y ffens bwriedig yn un "weldmesh" o liw gwyrdd, sydd yn ffens lle mae modd gweld drwyddi - ystyriwyd felly na fydd yn creu golwg gaeedig na gormesol i'r ysgol na'r tai cyfagos. Gan ei fod yn cydweddu â ffensys presennol yr ysgol ac yn caniatáu gwelededd, ni ystyriwyd y byddai'n creu effaith weledol yn yr ardal, ac felly'n cydymffurfio â Polisi PCYFF 3.

Adroddwyd bod rhai preswylwyr cyfagos wedi gwrthwynebu ar sail effaith weledol a theimlad gormesol, ond nodwyd bod ffensys o'r math yma yn gyffredin mewn ysgolion er mwyn diogelu staff a disgyblion. Gan fod ffensys tebyg eisoes yn bodoli o amgylch y safle, nid yw'r cynnig yn anghyson â'r amgylchedd. Bydd y ffens newydd tua 4-5 metr o gefn y tai, yn darparu bwlch digonol fel nad yw'n cael effaith sylweddol ar fwynderau preifat. Ategwyd bod rhaid ystyried yr angen ar gyfer diogelu disgyblion a thir yr ysgol ynghyd a'r tir tu allan i'r ysgol rhag difrod ac felly, ystyriwyd na fyddai'r ffens o'r math yma'n achosi niwed arwyddocaol sylweddol i fwynderau'r gymdogaeth leol, ac felly'n cydymffurfio gyda Polisi PCYFF 2 y CDLl. Yn ogystal, tynnwyd sylw at goed sydd â gorchymyn gwarchod ar hyd y ffin gydag amod i'w osod i sicrhau na chaiff unrhyw waith ar y coed ei wneud heb ganiatâd ymlaen llaw - byddai hyn yn diogelu'r coed fel rhan o'r datblygiad.

Nid oedd y bwriad arfaethedig yn cyrraedd y trothwyon ar gyfer cyflwyno Datganiad Iaith Gymraeg neu Adroddiad ar Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, er hynny ni ystyriwyd byddai'n niweidiol i'r iaith Gymraeg ac felly'n cydymffurfio a gofynion Polisi PS 1.

Ystyriwyd bod y materion cynllunio wedi derbyn sylw teilwng gyda rhai sylwadau yn cyfeirio at faterion gweithredol. Ni ystyriwyd bod y dystysgrif perchnogaeth tir yn anghywir, gan fod yr ymgeisydd yn gweithredu ar ran yr Ysgol a'r Cyngor, ac ni ystyriwyd bod cynnwys rhai dogfennau a gyflwynwyd yn anghywir nac yn ddiffygiol. Ategwyd mai mater i'r ymgeisydd oedd cysylltu gyda pherchnogion tir cyfagos, ac o dan y drefn Cynllunio nid oes rheidrwydd iddo wneud hynny.

Ystyriwyd fod y bwriad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio gyda pholisïau perthnasol. Argymhellwyd caniatáu'r cais gydag amodau

b) Cynigiwyd ac eiliwyd caniatáu y cais

c) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:
- Bod gosodiad y ffens ar y ffin yn ymddangos yn ymwthiol - byddai ei osod 3-4 meter i ffwrdd o'r wal yn dderbyniol
- Byddai angen rheoli mynediad i'r bwlch rhwng y ffens a'r wal - angen cynnal trafodaethau i gael trefn ar hyn
- Bod y ffens yn ymddangos yn ormesol - angen trafod a chytuno ar ei leoliad

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â lleihau uchder y ffens i 2m oherwydd bod 2.4m i weld yn uchel ac os mai'r bwriad oedd diogelu plant neu gadw plant i mewn, nodwyd bod 2.4 m yn cyd-fynd â ffensys eraill oedd o gwmpas yr Ysgol. Ategwyd bod modd codi ffens 2m heb gais Cynllunio.

Mewn ymateb i sylwadau yn ymwneud a lleoliad y ffens, nodwyd y bydd trafodaethau yn cael eu cynnal gyda'r trigolion hynny sydd a'u gerddi yn ffinio gyda'r ffens a bod posib gosod amod i gytuno ar yr union leoliad. Ategwyd, er bod gwybodaeth ddigonol wedi ei gyflwyno yn cadarnhau lleoliad y ffens, bydd angen cynnal trafodaethau gyda'r tirfeddianwyr i gael hawl mynediad i weithredu.

**PENDERFYNWYD: Caniatáu gydag amodau**

1. **5 Mlynedd**
2. **Unol a'r cynlluniau**
3. **Lliw gwyrdd tywyll**
4. **Gwelliannau Bioamrywiaeth**

Nodyn

Nid yw'r caniatâd yma yn cynnwys unrhyw waith i goed wedi eu gwarchod o dan Orchymyn Gwarchod Coed. Bydd angen caniatâd ar wahân ar gyfer unrhyw waith i'r coed sydd wedi eu gwarchod

## 5.3 CAIS RHIF C24/1032/04/LL Tir Ger LL23 7NR, Frongoch, LL23 7NR

Gweithrediad dros dro o fast meteoroleg a strwythurau ategol am gyfnod o hyd at bum mlynedd.

Tynnwyd sylw at y ffurflen sylwadau hwyr oedd yn cynnwys sylwadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cytuno gyda chasgliad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

a) Amlygodd yr Uwch Swyddog Cynllunio - Mwynau a Gwastraff bod y cais yn ymwneud â chodi a gweithredu mast anemometreg dros dro am gyfnod o bum mlynedd ar ucheldir ger copa Pen y Bwlch Gwyn. Bydd y mast yn strwythur delltog dur hyd at 100m o uchder, wedi'i gynnal gan wifrau tynhau ac wedi'i gyfarparu ag offer monitro meteoroleg, gan gynnwys anemomedrau a cheiliogod gwynt. Nodwyd bod nifer o ddynodiadau tirwedd a chadwraeth bwysig yn gymharol agos - Parc Cenedlaethol Eryri, ffin arfaethedig Parc Cenedlaethol Glyndŵr ac AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy; y safle hefyd o fewn cyffiniau sawl safle Ewropeaidd dynodedig, megis ACA, AGA a safleoedd RAMSAR - Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid, Migneint-Arenig-Dduallt a'r Berwyn.

Yng nghyd-destun egwyddor y bwriad, nodwyd nad oedd polisi penodol yn y CDLl yn ymwneud â mastiau meteoroleg. Fodd bynnag, pwrpas y mast arfaethedig oedd casglu data meteoroleg i asesu hyfywedd datblygiad ynni gwynt posibl yn y dyfodol, ac felly ystyriwyd y cynnig fel math o seilwaith cysylltiedig i ddatblygiad ynni adnewyddadwy yn erbyn Polisi Strategol PS 7 y CDLl; polisi sy'n cefnogi technolegau ynni adnewyddadwy, ynghyd â Polisi ADN 1 sy'n ymwneud â datblygiadau ynni gwynt ar y tir.

Adroddwyd, ers mabwysiadu'r CDLl, bod yr Ardaloedd Chwilio Strategol a nodwyd yn TAN 8 wedi cael eu disodli gan yr Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw a nodir yn Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040. Cyfeiriwyd at Polisi 17 o Cymru'r Dyfodol sydd yn sefydlu rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni gwynt ar raddfa fawr o fewn yr ardaloedd hynny, tra bod Polisi 18 yn darparu'r meini prawf perthnasol ar gyfer asesu cynigion o'r fath.

Ategwyd bod y safle dan sylw wedi'i leoli y tu allan i'r Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw agosaf ar gyfer ynni gwynt. Fodd bynnag, nid yw Cymru'r Dyfodol na Polisi Cynllunio Cymru yn gwahardd datblygiadau ynni gwynt neu seilwaith cysylltiedig y tu allan i'r ardaloedd hynny. Yn hytrach, mae'r Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw yn nodi lle mae Llywodraeth Cymru wedi asesu y gellid derbyn datblygiadau gwynt ar raddfa fawr mewn egwyddor, heb rwystro ystyriaeth i gynigion mewn lleoliadau eraill.

Yn ychwanegol, mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi bod prosiectau cynhyrchu ynni ar y tir â chapasiti rhwng 10MW a 350MW yn cael eu penderfynu gan Weinidogion Cymru drwy'r broses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC/DNS) ac yn cael eu hasesu yn erbyn polisïau Cymru'r Dyfodol. Yn hyn o beth, nodwyd bod hysbysiad o fwriad wedi'i gyflwyno i Weinidogion Cymru ar gyfer fferm wynt bosibl ar yr un safle. Serch hynny, nid yw'r cais presennol yn ymwneud â'r fferm wynt ei hun ac ni ellid rhoi pwysau i egwyddor y datblygiad hwnnw wrth asesu'r cais. Rhaid ystyried y mast anemometreg ar ei rinweddau ei hun.

Pwysleisiwyd bod y cynnig yn ymwneud â strwythur dros dro am gyfnod o bum mlynedd yn unig. Bydd amodau cynllunio yn sicrhau bod y mast, y gwifrau tynhau a'r holl seilwaith cysylltiedig yn cael eu tynnu o'r safle a'r tir yn cael ei adfer i'w gyflwr blaenorol ar ddiwedd y cyfnod. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd y datblygiad yn debygol o arwain at effeithiau parhaol neu hirdymor ar y safle. Ystyriwyd hefyd bod yr egwyddor o osod mast anemometreg dros dro at ddibenion casglu data meteoroleg yn dderbyniol mewn polisi, yn amodol ar ystyriaeth fanwl o'r effeithiau perthnasol, gan gynnwys tirwedd, gweledAs, bioamrywiaeth, treftadaeth, mwynderau a materion technegol eraill.

Yng nghyd-destun materion gweledol, nodwyd bod polisïau PCYFF 3, AMG 2 ac AMG 3 y CDLl yn berthnasol wrth asesu effaith y datblygiad ar gymeriad y dirwedd a mwynderau gweledol. Bydd y safle wedi'i leoli ar dir uchel o fewn Ardal Tirwedd Arbennig 'Cefnwlad y Bala', ac mewn lleoliad sydd i'w weld o rannau o Barc Cenedlaethol Eryri. Cyflwynwyd Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol (LVA) i gefnogi'r cais, ynghyd â gwybodaeth ychwanegol ar bwyntiau golygfa. Yn dilyn adolygu'r wybodaeth, adroddwyd bod CNC yn fodlon bod digon o dystiolaeth wedi'i darparu i asesu'r effeithiau ar y dirwedd a'r mwynderau gweledol, ac yn casglu na fyddai'r datblygiad yn niweidio cymeriad y dirwedd, amwynder gweledol na rhinweddau arbennig Parc Cenedlaethol Eryri. Cydnabuwyd y byddai'r mast 100m o uchder yn weladwy dros ardal eang ac y bydd yn cyflwyno elfen o waith dynol mewn rhai golygfeydd agored. Fodd bynnag, roedd yr asesiad yn dangos mai effeithiau bach neu isel fyddai'n codi yn y mwyafrif o safbwyntiau, gyda rhai effeithiau cymedrol neu gymedrol-isel mewn nifer gyfyngedig o leoliadau sensitif; byddai adeiladwaith delltwaith main y mast, ynghyd â'i natur dros dro, yn lleihau ei effaith weledol gyffredinol.

O ystyried barn CNC, canfyddiadau'r Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol, a natur dros dro'r datblygiad, ystyriwyd na fyddai'r cynnig yn arwain at effeithiau annerbyniol ar y dirwedd na mwynderau gweledol ac y byddai'n cydymffurfio â gofynion polisïau PCYFF 3, AMG 2 ac AMG 3 y CDLl.

Yng nghyd-destun Mwynderau Preswyl ac o ystyried y pellter rhwng y safle a'r eiddo preswyl agosaf, ynghyd â natur gymharol syml y datblygiad, dyluniad cul y mast a dylanwad topograffi'r tir, ni ystyriwyd y byddai'n yn cael effaith annerbyniol ar amwynder gweledol na mwynderau preswyl cyffredinol. O ganlyniad, ystyriwyd bod y datblygiad yn cydymffurfio â gofynion Polisi PCYFF 2 y CDLl, sy'n ceisio sicrhau nad yw datblygiadau'n cael effaith andwyol sylweddol ar iechyd, diogelwch na mwynderau deiliaid eiddo cyfagos.

Mewn perthynas â goleuadau awyrennau arfaethedig, nodwyd mai goleuadau is-goch dwysedd isel fydd y goleuadau ac felly ni ystyriwyd y byddant yn cael effaith weledol sylweddol nac yn achosi llygredd goleuni annerbyniol i eiddo cyfagos.

Derbyniwyd sylwadau ynghylch posibilrwydd sŵn, ond gan fod y mast yn cynnwys ychydig iawn o rannau symudol, ni ddisgwylid iddo gynhyrchu sŵn gweithredol sylweddol. Yn ogystal, byddai unrhyw aflonyddwch dros dro yn ystod y cyfnod adeiladu yn gyfyngedig o ran ei hyd ac yn cael ei reoli drwy arferion adeiladu safonol. Ar y sail yma, ystyriwyd bod y cynnig yn dderbyniol o safbwynt mwynderau ac yn cydymffurfio â Polisi PCYFF 2.

Wrth ystyried Materion Trafnidiaeth nodwyd nad oedd y datblygiad arfaethedig yn cynnwys unrhyw newidiadau i'r trefniadau mynediad presennol ac ni ragwelwyd y byddai'n arwain at gynnydd sylweddol mewn symudiadau traffig yn ystod y cyfnod gweithredu. O ganlyniad, ni fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol ar ddiogelwch na gweithrediad y rhwydwaith ffyrdd lleol ac felly o safbwynt trafnidiaeth, yn cydymffurfio â gofynion Polisïau PS 4 a TRA 4 y CDLl.

Yng nghyd-destun Materion Ecolegol adroddwyd bod y safle wedi'i leoli yn gymharol agos at nifer o safleoedd Ewropeaidd dynodedig, gan gynnwys ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid, ACA/AGA Migneint–Arenig–Dduallt, safle RAMSAR Llyn Tegid ac ACA/AGA Berwyn. Roedd CNC yn nodi mai'r prif risgiau fyddai'n codi yn ystod y cyfnod adeiladu, yn enwedig mewn perthynas â llygredd, fydd gwaddodiad a tharfu ar gyrsiau dŵr. Fodd bynnag, ystyriwyd y gellid rheoli'r risgiau hyn drwy sicrhau amod Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP). Roedd CNC yn cadarnhau, yn ddarostyngedig i weithredu mesurau lliniaru priodol, na fyddai'r datblygiad yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd y safleoedd

dynodedig. Ni ystyriwyd chwaith fod y datblygiad yn debygol o arwain at effeithiau sylweddol o ran maethynnau neu ansawdd dŵr yn ystod y cyfnod gweithredol.

O safbwynt ecolegol, er bod pryderon wedi'u codi ynghylch adar sy'n nythu, yn benodol y posibilrwydd y gallai'r mast weithredu fel man gorffwys i ysglyfaethwyr, ystyriwyd y gellid rheoli'r mater hwn drwy Gynllun Diogelu Adar sy'n Magu (BBPP). Roedd CNC ac Ecolegydd y Cyngor yn fodlon nad oedd y datblygiad yn debygol o gael effaith sylweddol ar rywogaethau gwarchodedig nac ar gynefinoedd sensitif, gyda cholled gynefin gyfyngedig iawn yn deillio o'r cynnig. Roedd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi dod i'r casgliad y gellid rheoli'r prif risgiau i safleoedd Ewropeaidd, sy'n ymwneud yn bennaf â'r cyfnod adeiladu ac adar sy'n nythu, drwy amodau cynllunio priodol gan gynnwys Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) a Chynllun Diogelu Adar sy'n Magu (BBPP). O ganlyniad, ystyriwyd na fyddai'r datblygiad yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd unrhyw safle Ewropeaidd, naill ai ar ei ben ei hun nac ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill. Yn ddarostyngedig i amodau priodol sy'n sicrhau gweithredu'r mesurau lliniaru a'r gwelliannau bioamrywiaeth arfaethedig, ystyriwyd bod y datblygiad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio â Pholisïau PS 19, AMG 3, AMG 5 a GWA 1 y CDLl.

Nid oedd unrhyw ddynodiadau treftadaeth ger y safle a bu i CADW gadarnhau nad oedd ganddynt wrthwynebiad i'r datblygiad. Ystyriwyd na fyddai'r mast yn cael effaith ar asedau treftadaeth dynodedig gan fod topograffi'r tir yn cyfyngu ar y cysylltiad gweledol rhyngddo a'r asedau hynny; y cynnig yn cydymffurfio â gofynion Polisi PS 20 y CDLl.

Amlygwyd bod y safle wedi'i leoli o fewn ardal hyfforddi hedfan isel Low Flying Area 7. Cadarnhaodd y Weinyddiaeth Amddiffyn nad oedd ganddynt wrthwynebiad i'r datblygiad, yn amodol ar osod amodau safonol sy'n ymwneud â goleuadau rhwystr i awyrennau, siartio hedfan a gofynion diogelwch perthnasol. Ystyriwyd bod yr amodau hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau na fyddai'r mast yn effeithio'n andwyol ar ddiogelwch hedfan na gweithrediadau hedfan isel milwrol ac felly yn cydymffurfio â gofynion Polisi PCYFF 2 y CDLl.

Gan nad yw'r datblygiad yn cyrraedd y trothwy sy'n gofyn am Ddatganiad Iaith Gymraeg, ac oherwydd ei natur dros dro a chyfyngedig, ni ystyriwyd y byddai'n cael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg ac felly yn cydymffurfio â Polisi PS 1 y CDLl a'r CCA Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy.

Ystyriwyd bod egwyddor y datblygiad yn dderbyniol fel seilwaith cysylltiedig i ynni adnewyddadwy ac na fyddai'n arwain at effeithiau hirdymor gan y bydd y mast yn cael ei dynnu, a'r safle'n cael ei adfer ar ddiwedd cyfnod 5 mlynedd. Ni ystyriwyd y byddai'n cael effaith annerbyniol ar y dirwedd, mwynderau, bioamrywiaeth, safleoedd Ewropeaidd dynodedig, treftadaeth, diogelwch hedfan, yn amodol ar osod amodau priodol; y datblygiad yn cydymffurfio â'r polisïau lleol a chenedlaethol perthnasol a'r argymhelliad yn un i ganiatáu yn ddarostyngedig i amodau.

b) Nododd yr Aelod Lleol ei fod yn cytuno gyda'r argymhelliad

c) Cynigiwyd ac eiliwyd caniatáu'r cais

d) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:
- Bod amodau digonol i sicrhau rheolaeth
- Un mast sydd yma i gasglu data am gyflymder gwynt - be ddaw yn ei sgil? Fferm wynt a pheilonau hyll fydd yn ceisio cysylltu â'r grid cenedlaethol

**PENDERFYNWYD: Dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i'r amodau isod;**

1. **Rhaid i'r datblygiad ddechrau o fewn pum mlynedd i ddyddiad y penderfyniad**
2. **Rhaid i'r datblygiad gael ei gyflawni yn unol â'r cynlluniau a'r dogfennau cymeradwy a ganlyn.**
3. **Rhaid tynnu'r mast a ganiateir drwy hyn a rhaid adfer y tir i'w gyflwr blaenorol o fewn 5 mlynedd i ddyddiad ei gomisiynu. Rhaid i'r ymgeisydd hysbysu'r Awdurdod Cynllunio Lleol o ddyddiad y comisiynu o fewn 3 mis i'r dyddiad hwnnw.**
4. **Cyn dechrau'r datblygiad (gan gynnwys gwaith tir a chlirio llystyfiant), rhaid cyflwyno Datganiad Dull manwl sy'n disgrifio sut y caiff y safle ei ddychwelyd i'w gyflwr gwreiddiol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, a rhaid ei gymeradwyo'n ysgrifenedig. Rhaid cadw at a gweithredu'r mesurau a gymeradwywyd yn llawn.**
5. **Ni fydd unrhyw ddatblygiad, gan gynnwys clirio'r safle, yn dechrau nes bod Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.**
6. **Ni fydd unrhyw ddatblygiad na cham o'r datblygiad yn dechrau nes bod Cynllun Diogelu Adar sy'n Magu (BBPP) wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo.**
7. **Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad hyd nes y bydd cynllun gwella bioamrywiaeth wedi ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gytuno'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y datblygiad yn cael ei wneud yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.**
8. **Ni chaniateir unrhyw glirio llystyfiant, gwaith tir na gweithgareddau adeiladu yn ystod tymor nythu adar (1 Mawrth i 31 Awst yn gynhwysol) oni bai bod hynny wedi'i gytuno'n ysgrifenedig ymlaen llaw gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Pan fo angen cynnal gwaith yn ystod y cyfnod hwn, rhaid cynnal arolwg o'r safle gan ecolegydd cymwys dim mwy na 48 awr cyn dechrau'r gwaith. Rhaid gweithredu unrhyw argymhellion a roddir yn llawn, ac os canfyddir nythod gweithredol, rhaid sefydlu parth gwarchod priodol a'i gynnal hyd nes i'r cywion ffoi.**
9. **Rhaid gosod dyfeisiau gwyro adar ar bob gwifren gynhaliol allanol y mast ar bellter nad yw'n fwy na 2 fetr ar hyd eu hyd gyfan cyn i'r mast ddod yn weithredol. Rhaid cadw a chynnal y dyfeisiau hyn drwy gyfnod bywyd y datblygiad. Rhaid disodli unrhyw ddyfeisiau sydd wedi'u difrodi, wedi'u symud neu wedi datgysylltu o fewn un mis i'w canfod.**
10. **Cyn dechrau adeiladu unrhyw fastiau meteoroleg, neu ddefnyddio unrhyw offer adeiladu neu strwythur(au) dros dro 50 metr neu fwy o uchder (uwchben lefel y ddaear), rhaid i'r datblygwr gyflwyno cynllun goleuo hedfan i'w gymeradwyo gan Gyngor Gwynedd ar y cyd â'r Weinyddiaeth Amddiffyn, gan nodi sut y bydd y datblygiad yn cael ei oleuo drwy gydol ei oes er mwyn cynnal gofynion diogelwch hedfan sifil a milwrol fel y penderfynir yn angenrheidiol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.**
    **Dylai hyn gynnwys:**
    **a) Manylion unrhyw offer adeiladu a strwythurau dros dro sydd â chyfanswm uchder o 50 metr neu fwy (uwchben lefel y ddaear) a fydd yn cael eu defnyddio yn ystod adeiladu'r mast meteoroleg, ynghyd â manylion unrhyw oleuadau rhybudd hedfan a fydd yn cael eu gosod arnynt; a**
    **b) Lleoliad ac uchder pob mast meteoroleg o fewn y datblygiad, gan nodi'r rhai a fydd yn cael goleuadau rhybudd hedfan, lleoliad y goleuadau ar y mast, y math o oleuadau a fydd yn cael eu defnyddio, a manylebau perfformiad y goleuo.**

**Wedyn, rhaid i'r datblygwr osod y goleuadau fel y nodir yn y cynllun goleuo hedfan a gymeradwywyd, a bydd y goleuadau yn parhau'n weithredol drwy oes y datblygiad.**

11. **Rhaid i'r datblygwr hysbysu'r Weinyddiaeth Amddiffyn, o leiaf 14 diwrnod cyn dechrau'r gwaith, yn ysgrifenedig, o'r wybodaeth ganlynol:**
    **a) dyddiad dechrau codi'r mast(iau) meteoroleg;**
    **b) uchder mwyaf unrhyw offer adeiladu a ddefnyddir wrth godi'r mast;**
    **c) dyddiad y daw unrhyw fast meteoroleg i ddefnydd;**
    **d) lledred, hydred ac uchder uchaf pob mast meteoroleg.**
12. **Rhaid hefyd hysbysu'r Weinyddiaeth Amddiffyn am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth hon ac ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu.**

**5.4 CAIS RHIF C24/0323/14/LL** Tir Ger Gwesty Muriau Park, Ffordd Bont Saint, Caernarfon.

Gorsaf betrol arfaethedig, hwb gwefru ceir trydan, adeilad manwerthu, creu mynedfa newydd a gwaith cysylltiedig gan gynnwys tirlunio.

Roedd rhai o Aelodau'r Pwyllgor wedi ymweld â'r safle 8fed o Orffennaf 2026.

Amlygodd y Rheolwr Cynllunio bod cais, oedd wedi ei gefnogi gan lythyr, wedi dod i law gan asiant cais 5.4 yn gofyn i gais 5.4 a chais 5.5 gael eu gohirio oherwydd bod rhai materion angen sylw pellach. Mewn ymateb i'r cais, nododd y Rheolwr Cynllunio bod yr Uned Priffyrdd bellach wedi cyflwyno sylwadau yn cadarnhau nad oeddynt yn gwrthwynebu'r cais a bod y bwriad felly yn cydymffurfio gyda maen prawf 3 o Polisi TRA 1 ynghyd a Polisi TRA 4 o safbwynt diogelwch ffyrdd. O ganlyniad, roedd rheswm gwrthod rhif 1 (fel roedd yn ymddangos yn yr adroddiad) yn cael ei ddileu. Ategwyd bod gwrthwynebiadau'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'r cais yn amlygu nad oedd y lleoliad yn addas a bod gwybodaeth ddigonol wedi ei gyflwyno i'r Aelodau wneud penderfyniad ar y ddau gais.

Tynnwyd sylw at y ffurflen sylwadau hwyr oedd yn cynnwys rheswm gwrthod ychwanegol i adlewyrchu effaith ymwthiol y datblygiad. Amlygwyd bod y rheswm yn nodi nad oedd y datblygiad yn adlewyrchu dull sensitif na phriodol o ddylunio ac yn ymddangos yn anghydnaws ac yn ymwthiol o fewn ei gyd-destun; nid oedd felly yn cydymffurfio â pholisïau PCYFF 3 a PCYFF 4 sy'n sicrhau fod cynigion a'r cynlluniau tirweddu yn parchu eu cyd-destun a'i leoliad yn y dirwedd leol.

a) Amlygodd yr Uwch Swyddog Cynllunio mai cais llawn ydoedd ar gyfer adeiladu gorsaf gwasanaethu fyddai'n darparu tanwydd i gerbydau ac yn cynnwys hwb gwefru ceir trydan, adeilad manwerthu ynghyd a chreu mynedfa newydd a gwaith cysylltiedig gan gynnwys tirlunio.

   Adroddwyd bod y safle yn eistedd tu allan i'r ffin datblygu fel y nodir yn y CDLl ac er nad yw'n eistedd o fewn unrhyw ddynodiadau tir arbennig, nodwyd bod y safle o fewn parth ymgynghori Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Gwyrfai ar sail effaith Ffosfforws. Fe'i lleolir yn union ger yr A487, sef rhan o'r rhwydwaith ffyrdd strategol, gyda natur y datblygiad yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth i ddefnyddwyr y ffordd yma. Aseswyd egwyddor y datblygiad drwy Polisïau TRA 1 ac PCYFF1 y CDLl.

Eglurwyd bod yr elfen siop wedi ei leoli o fewn yr un adeilad a'r man talu ar gyfer tanwydd ac o'r wybodaeth a gyflwynwyd bydd maint yr ardal manwerthu yn cael ei ddiffinio fel 'siop fechan', o fewn y CDLl. Ystyriwyd felly y byddai siop o'r maint yma yn elfen atodol i'r prif bwrpas o ddarparu tanwydd a seibiant wrth deithio, ac felly ni ystyriwyd y byddai'n debygol o danseilio darpariaeth manwerthu canolfannau cyfagos.

Mynegwyd y gall datblygiadau arfaethedig sy'n arwain at gynnydd yn y llwyth ffosfforws o fewn y dalgylch arwain at effeithiau andwyol ar ansawdd dŵr ac felly ar gyflwr ecolegol yr ACA. Cyflwynwyd gwybodaeth fel rhan o'r cais yn cadarnhau bod bwriad cysylltu â Safle Trin Gwastraff Caernarfon gyda sylwadau Dwr Cymru yn cadarnhau bod hynny yn dderbyniol; ni ystyriwyd y byddai'r bwriad yn cael unrhyw effaith ar lefelau ffosfforws Afon Gwyrfai ac felly'r bwriad yn dangos niwtraliaeth o ran hyn.

Yng nghyd-destun mwynderau gweledol, cyffredinol a phreswyl ystyriwyd fod y bwriad, oherwydd ei leoliad graddfa a'r defnydd yn annerbyniol o ganlyniad i'r lefel o aflonyddwch a chynnydd mewn gweithgaredd o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol - yn groes i faen prawf 7 Polisi PCYFF 2 sy'n diogelu mwynderau meddianwyr eiddo lleol. Nid yw'r safle yn cael ei ystyried yn addas ar gyfer datblygiad o'r natur yma, yn enwedig o ystyried ei amlygrwydd yn y dirwedd a'r methiant i leihau'r effaith weledol.

Yn ychwanegol, gall y bwriad achosi effaith sylweddol ar rinweddau ACA Glynllifon, yn benodol yr ystlum pedol leiaf sy'n nodwedd o'r ACA yma (tystiolaeth bod ystlumod pedol leiaf yn defnyddio'r ardal ac y byddai'r bwriad yn amharu ar y gwrychoedd y maent yn ei ddefnyddio). Adroddwyd nad oedd gwybodaeth ddigonol wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais i'r Awdurdod gwblhau Asesiad Priodol yn yr achos yma ac felly daethpwyd i'r casgliad na ellid cael unrhyw sicrwydd na fydd y bwriad yn cael effaith sylweddol neu andwyol ar yr ACA. Ategwyd nad oedd datganiad seilwaith gwyrdd wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais oedd yn arwain at ansicrwydd fod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru.

Yng nghyd-destun materion Draenio Tir, Dŵr Tir a Llifogydd, nodwyd bod y safle'n cynnwys prif afon ddynodedig (Afon Rhosdican) a phryderon ynghylch y datblygiad a risg llifogydd yn y dyfodol i'r cynnig ac i drydydd parti. Nodwyd nad oedd gwybodaeth ddigonol wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais er mwyn sicrhau mynediad addas a digonol i beiriannau er mwyn galluogi gwaith cynnal a chadw'r brif afon yn y dyfodol a darparu llwybr llif llifogydd/parth byffer i'r brif afon; heb y wybodaeth berthnasol yma, ystyriwyd na ellid sicrhau fod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion maen prawf rhif 4 polisi PS6.

Ategwyd nad oedd gwybodaeth ddigonol wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais ar gyfer asesu effaith o ganlyniad i unrhyw halogiad yn y tir. I'r perwyl hyn nid oedd modd cadarnhau y byddai'r bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion maen prawf 7 o bolisi PCYFF 2 na Polisi PS6.

Ni chyflwynwyd tystiolaeth ddigonol fel rhan o'r cais cynllunio i amlygu bod ystyriaeth lawn wedi ei roi i'r effaith o golli tir amaethyddol gorau a mwyaf aml bwrpas ac felly ystyriwyd bod y cais yn groes i ofynion maen prawf 6 Polisi PS 6 ynghyd a'r cyngor a roddir ym mharagraffau 3.58 a 3.59 o Bolisi Cynllunio Cymru.

Yn ogystal, derbyniwyd gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â'r tanciau petrol ac ail ymgynghorwyd gyda CNC. Hyd yma, nid oedd ymateb wedi ei dderbyn i'r ymgynghoriad pellach ac felly addaswyd rheswm gwrthod 5 i adlewyrchu hyn.

Wedi ystyried yr holl faterion cynllunio perthnasol gan gynnwys polisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol yn ogystal â'r holl sylwadau a dderbyniwyd, ystyriwyd fod y bwriad yn annerbyniol yn y ffurf fel y cyflwynwyd gan ei fod yn methu bodloni gofynion y polisïau a'r canllawiau perthnasol.

b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd gwrthwynebydd i'r cais y sylwadau canlynol:
- Ei bod yn berchennog gwesty cyfagos Muriau Park ers 38 o flynyddoedd ac wedi wynebu nifer o sialensiau yn y cyfnod hynny. Hwn yn sialens newydd
- Bod tir y safle yn dir amaethyddol, cyfoethog mewn lleoliad llawn harddwch – byddai'r bwriad yn difetha'r amgylchedd
- Nad oedd Cwmni Cadnant wedi ystyried y polisïau lleol – y ddogfen yn trafod ei gwesty ac ni all ddychmygu'r fath ddatblygiad ar ei stepen drws
- Bod gorsafoedd tanwydd yn Dolydd, Caeathro a Chaernarfon yn cyflogi yn lleol - beth fyddai'r effaith ar y busnesau hyn? Colli swyddi? Cau? - rhaid ystyried yr economi leol
- Yr ardal yn ardal werdd - pam dewis y lleoliad yma gyda chynllun o'r fath?
- Byddai'r fynedfa yn mynd o'r hen lôn - a oes bwriad cynnal asesiad traffig i fonitro gwir ystyr prysurdeb y sefyllfa – risg o ddamweiniau?
- Yn gofyn i'r Pwyllgor gadw o fewn polisïau a deddfwriaethau a gwrthod y cynllun.

c) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd asiant ar ran yr ymgeisydd y sylwadau canlynol:
- Y cais wedi ei gyflwyno yn gynamserol a hynny oherwydd bod materion heb eu datrys yn llawn
- Bod pryder sylfaenol wedi ei godi am yr effaith weledol a'r rheswm gwrthod ar gyfer hwnnw wedi ei gyflwyno i'r ymgeisydd am y tro cyntaf yn y sylwadau hwyr
- Bod effaith dwr daear ac afon gyfagos yn parhau i gael eu trafod gan CNC
- Nad oedd gan CNC wrthwynebiad ar sail effaith ar yr ystlumod
- Nad oedd bwriad codi ffens acwstig 4m fel oedd wedi ei nodi; y cynllun tirlunio yn amlygu ffens 3m a gwrych sylweddol ar hyn y ffin ogleddol – yr ymgeisydd yn hapus i edrych ymhellach i hyn a thrafod gyda swyddogion a'r cymydog
- Nid yw sylw at dir amaethyddol yn sail i wrthwynebiad – hyn wedi ei wneud yn glir yn y cyfnod ymgynghori
- Yn cyfeirio at Achos Llys Horncastle; Wrth drafod dau gais tebyg, ochr yn ochr mewn pwyllgor rhaid eu hystyried gyda'i gilydd ar ôl iddynt gael eu hadolygu yn briodol a chyflawn - ar sail cyfarfod y Pwyllgor heddiw bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn agored i'r posibilrwydd o adolygiad barnwrol - cynllun cyflawn wedi ei gyflwyno yma gan ei fod wedi sicrhau Motor Fuel Group (MFG) ar gyfer y cyfleusterau gwefru a'r orsaf betrol
- Bod y cwmni eisoes yn gweithredu gorsaf danwydd Morrisons yng Nghaernarfon - nid oedd bwriad ganddynt gau'r orsaf honno os byddai'r cais yn cael ei ganiatáu
- MFG yn gwneud cais i'r Pwyllgor ohirio penderfyniad ar y ddau gais er tegwch i gyflogwr yn y dref ac un sydd wedi buddsoddi yn sylweddol

ch) Nid oedd gan yr Aelodau Lleol sylwadau i'w cynnig

d) Cynigiwyd ac eiliwyd gwrthod y cais yn unol â'r argymhelliad

dd) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:
- Bod digon o ddarpariaeth tanwydd yn y Dref
- Byddai'r bwriad yn arwain ar golled tir amaethyddol da

**PENDERFYNWYD: Gwrthod**
**Rhesymau:**

1. **Ystyriwyd fod y bwriad, oherwydd ei leoliad graddfa a'r defnydd yn annerbyniol o ganlyniad i'r lefel o aflonyddwch a chynnydd mewn gweithgaredd o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol ac o ganlyniad, ystyrir fod y bwriad yn groes i faen prawf 7 o bolisi PCYFF 2 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 sy'n diogelu mwynderau meddianwyr eiddo lleol.**

2. **Mae'r prawf o effaith tebygol sylweddol yn awgrymu y gall y bwriad achosi effaith sylweddol ar rinweddau ACA Glynllifon, yn benodol yr ystlum pedol leiaf sy'n nodwedd o'r ACA yma, o ganlyniad i'w leoliad, y dystiolaeth fod ystlumod pedol leiaf yn defnyddio'r ardal a bod y bwriad yn amharu ar y gwrychoedd mae'r ystlumod yn ei ddefnyddio. Nid oes gwybodaeth ddigonol wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais er mwyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol allu cwblhau Asesiad Priodol yn yr achos yma yn unol â gofynion yr Awdurdod o dan Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Cesglir felly na ellir cael unrhyw sicrwydd na fydd y bwriad yn cael effaith sylweddol neu andwyol ar yr ACA oherwydd y diffyg gwybodaeth ac felly nid yw'r bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.**

3. **Nid oes datganiad seilwaith gwyrdd wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais ac felly nid oes sicrwydd fod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru (2024) o ran y dull gam wrth gam a gwelliannau bioamrywiaeth.**

4. **Nid oes gwybodaeth ddigonol wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais ar hyn o bryd ar gyfer asesu effaith o ganlyniad i unrhyw halogiad yn y tir. I'r perwyl hyn ni ellir cadarnhau os yw'r bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion maen prawf 7 o bolisi PCYFF 2 na Polisi PS6 y CDLl Gwynedd a Môn 2011-2026.**

5. **Mae'r safle'n cynnwys prif afon ddynodedig (Afon Rhosdican) ac mae pryderon ynghylch y datblygiad hwn a'r risg llifogydd yn y dyfodol i'r cynnig ac i drydydd parti. Nid oes gwybodaeth ddigonol wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais er mwyn sicrhau mynediad addas a digonol i beiriannau er mwyn galluogi gwaith cynnal a chadw'r brif afon yn y dyfodol a darparu llwybr llif llifogydd/parth byffer i'r brif afon. Ystyrir heb y wybodaeth yma na ellir sicrhau fod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion maen prawf rhif 4 polisi PS6 CDLl Gwynedd a Môn 2011-2026.**

6. **Ni chyflwynwyd tystiolaeth ddigonol fel rhan o'r cais cynllunio i ddangos fod ystyriaeth lawn wedi ei roi i'r effaith o golli tir amaethyddol gorau a mwyaf aml bwrpas. Ystyrir felly fod y cais yn groes i ofynion maen prawf 6 Polisi PS 6 CDLL Gwynedd a Môn 2011-2026 ynghyd a'r cyngor a roddir ym mharagraffau 3.58 a 3.59 o Bolisi Cynllunio Cymru.**

7. **Nid yw'r datblygiad yn adlewyrchu dull sensitif na phriodol o ddylunio. Mae'n ymddangos yn anghydnaws ac yn ymwthiol o fewn ei gyd-destun, ac felly nid yw'n**

**cydymffurfio â pholisïau PCYFF 3 a PCYFF 4 y CDLl Gwynedd a Môn 2011-2026 sy'n sicrhau fod cynigion a'r cynlluniau tirweddu yn parchu eu cyd-destun a'i leoliad yn y dirwedd leol.**

**5.5 CAIS RHIF C24/0755/19/LL Tir gyferbyn a Cylchfan Meifod, Meifod Farm, Pwllheli Road, Bontnewydd, LL55 2TY**

Gwasanaethau ger ymyl ffordd a gwaith cysylltiedig.

Roedd rhai o Aelodau'r Pwyllgor wedi ymweld â'r safle ar yr 8fed o Orffennaf 2026.

a) Amlygodd yr Uwch Swyddog Cynllunio mai cais llawn ydoedd ar gyfer gorsaf gwasanaethau fyddai'n darparu tanwydd i gerbydau gan gynnwys siop gysylltiedig ar safle ger cylchfan Meifod. Eglurwyd bod y safle wedi ei leoli'n union ger rhwydwaith ffordd strategol A487 ac y byddai mynediad i'r safle oddi ar y gylchfan ar Ffordd Pwllheli. Ategwyd bod y safle tu allan i'r ffin datblygu fel y nodir yn y CDLl; er nad yw'r safle yn eistedd o fewn unrhyw ddynodiadau tir eraill, mae o fewn parth ymgynghori Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Gwyrfai ar sail effaith Ffosfforws ac oddeutu 300m i ffwrdd o Safle Bywyd Gwyllt.

Ystyriwyd na fydd y datblygiad yn rhwystro symudiad traffig strategol a derbyniwyd cadarnhad bod y fynedfa yn ddiogel o ran diogelwch y briffordd. Yn ogystal, byddai'r siop sydd wedi ei lleoli o fewn yr un adeilad a'r man talu ar gyfer tanwydd yn elfen atodol i'r prif bwrpas o ddarparu tanwydd a seibiant wrth deithio ac felly ni ystyriwyd y byddai'r siop yn debygol o danseilio darpariaeth manwerthu canolfannau agos; yn cydymffurfio gyda Polisi TRA 1 y CDLl.

Ategwyd bod rhesymeg swyddogaethol a lleoliadol clir dros y safle arfaethedig, ac nad oedd safleoedd mwy priodol o fewn y ffiniau datblygu. Ystyriwyd bod y cynnig yn dderbyniol mewn egwyddor o dan ofynion Polisi PCYFF 1 – y safle yn cynnig lleoliad addas o fewn y tirlun i ddarparu'r datblygiad, gan gyfyngu ei effaith weledol a pharchu'r dirwedd a'r amgylchedd lleol; o ganlyniad, yn cydymffurfio â gofynion perthnasol polisïau PCYFF 3 a PCYFF 4 y CDLl.

Nid oedd disgwyl i'r cynnig ychwanegu'n sylweddol at yr aflonyddwch presennol nac amharu ar fwynderau preswyl i raddau annerbyniol, yn ddarostyngedig i amodau perthnasol. I'r perwyl hyn, ystyriwyd bod y datblygiad yn cydymffurfio gyda pholisïau PCYFF 2 a 3 y CDLl yn sgil materion cyffredinol a phreswyl.

Yng nghyd-destun materion trafnidiaeth a mynediad, nid oedd gan yr Uned Trafnidiaeth bryderon o ran lefelau traffig i mewn ac allan o'r safle, nac o ran y trefniadau mewnol. Ategwyd bod Uned Cefnffyrdd y Llywodraeth hefyd yn fodlon gyda'r cynnig. Adroddwyd y bydd amodau yn cael eu gosod i sicrhau bod y dŵr wyneb yn cael ei reoli'n briodol ac i warchod y ddarpariaeth rhannu ceir.

Yng nghyd-destun materion bioamrywiaeth, nodwyd bod safle'r bwriad wedi ei leoli o fewn parth ymgynghori Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Gwyrfai ar sail effaith Ffosfforws, ac yn benodol oherwydd bod bwriad cysylltu i'r brif garthffos (Safle Trin Gwastraff sy'n gwasanaethu'r ardal yw safle Llanfaglan sy'n allyrru i'r Afon Gwyrfai). Ategwyd bod gwybodaeth wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais yn cadarnhau bod bwriad cysylltu i Safle Trin Gwastraff Caernarfon yn lle Llanfaglan, ac roedd sylwadau Dŵr Cymru yn cadarnhau bod

hynny yn dderbyniol, yn ddarostyngedig i gysylltu i bwynt penodol fydd angen ei sicrhau drwy amod cynllunio.

Lleolir y safle oddeutu 4.5km i ffwrdd o rannau agosaf Ardal Gadwraeth Arbennig (ACA) Glynllifon. Ystyriwyd y wybodaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r cais ynghyd a sylwadau CNC oedd yn awgrymu bod yr Asesiad Effaith Goleuo a'r Cynllun Tirlunio Meddal a Gwella Bioamrywiaeth yn darparu sail ddigonol i ystyried effeithiau posibl y cynllun ar rywogaeth yr ystlum pedol leiaf fel nodwedd o'r ACA.

O ran gwella bioamrywiaeth, roedd y datblygiad yn darparu ystod eang o fesurau i greu cynefinoedd newydd ac i gynyddu amrywiaeth ecolegol ar y safle. Ar y cyfan, roedd y cynllun yn mynd tu hwnt i liniaru effaith, gan ddarparu gwelliant net i fioamrywiaeth drwy gynyddu maint ac ansawdd cynefinoedd ar y safle o'i gymharu â'r cyflwr presennol. Cydnabuwyd y byddai effaith gychwynnol ar fioamrywiaeth o ganlyniad i'r datblygiad, yn enwedig yn ystod y cyfnod adeiladu, ond o ystyried natur a maint y gwelliannau bioamrywiaeth a gynigiwyd oedd yn cynnwys creu cynefinoedd newydd, plannu coed a gwrychoedd brodorol gan ddarparu nodweddion penodol ar gyfer bywyd gwyllt, ystyriwyd bod y datblygiad yn arwain at welliant net i fioamrywiaeth yn y tymor hir.

Eglurwyd bod safle'r bwriad yn dir amaethyddol gradd 3b ac felly nid oedd yn cael ei ystyried fel y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas. Ystyriwyd mai derbyniol fyddai defnyddio'r safle ar gyfer y datblygiad ac felly'n cydymffurfio gyda gofynion maen prawf 6 Polisi PS6 o'r CDLl.

Cyfeiriwyd at sylwadau pellach roedd yr asiant wedi eu darparu ar faterion egwyddor y cais, ymgynghoriad cyhoeddus, angen ar gyfer y datblygiad, ecoleg, tir amaethyddol a dogfennau nad oeddynt wedi eu cofnodi oedd yn golygu bod rhai amodau a gynigiwyd wedi derbyn sylw. Er hynny, nid oedd y sylwadau yn newid cynnwys yr adroddiad – yr holl ddogfennau a gyflwynwyd wedi derbyn sylw a'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cadarnhau y bydd angen diwygio rhai o'r dogfennau fydd yn cael sicrhad drwy amodau cynllunio.

Ystyriwyd bod yr holl faterion cynllunio dilys a godwyd yn ystod yr ymgynghoriadau cyhoeddus wedi'u hystyried yn llawn gyda'r datblygiad yn cydymffurfio â'r polisïau perthnasol, yn benodol Polisi TRA 1 sy'n ymwneud ac egwyddor y bwriad - nid yw'r polisi yn gofyn bod angen penodol am y datblygiad, ond yn hytrach yn sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion gyrwyr. Gellid dod i gasgliad bod y cynnig ar gyfer datblygiad gorsaf danwydd a'r gwaith cysylltiedig yn dderbyniol, gan nad yw'n arwain at effaith annerbyniol ar yr ardal na'i hamgylchedd. O ystyried y mesurau lliniaru a'r rheolaeth briodol drwy amodau cynllunio, gellid sicrhau na fydd effaith negyddol yn sgil y bwriad. Roedd y Swyddogion Cynllunio yn argymell caniatáu'r datblygiad gydag amodau priodol.

b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd asiant ar ran yr ymgeisydd y sylwadau canlynol:
- Bod rhaid i'r penderfyniad gael ei wneud ar sail tystiolaeth, y CDLl a chyngor y swyddogion proffesiynol ac nid ar sail buddiannau masnachol ymgeiswyr cystadleuol sydd wedi methu cyflwyno cais cyflawn o'r safon uchaf
- Bod Polisi TRA 1 yn cefnogi datblygiadau gwasanaeth ochr ffyrdd sydd wedi ei lleoli ar y A487 - y diben yw gwasanaethu cerbydau sydd eisoes yn defnyddio'r A487 - y Llywodraeth wedi datgan angen dirfawr am wasanaethau ochr ffordd fel hyn.
- O ran traffig, Uned Trafnidiaeth a Llywodraeth Cymru yn llwyr gefnogi'r datblygiad - asesiad trafnidiaeth fanwl yn cadarnhau na fydd effaith annerbyniol ar y ffyrdd
- Er yn parchu pryderon lleol, cynnig i wasanaethu traffig presennol fydd y datblygiad

- Bod pob cais am wybodaeth ychwanegol gan ymgynghorwyr wedi derbyn ymateb gan arbenigwyr - siom nad oedd yr ymatebion yn cael eu hadlewyrchu yn yr adroddiad
- Llu o asesiadau wedi eu cyflwyno ar ecoleg, ystlumod, adar, ymlusgiaid, ansawdd aer, goleuo draenio ayyb - y cynllun yn darparu gwelliant net sylweddol i fioamrywiaeth ac yn mynd tu hwnt i ofynion Polisi Cynllunio Cymru
- Y cynllun wedi esblygu yn sylweddol ers y dechrau - bellach wedi ei haneru o ran maint a'r elfen manwerthu wedi lleihau - elfen ategol i'r gwasanaeth ochr ffordd yw'r siop ac nid uned manwerthu annibynnol
- Yn darparu 11 pwynt gwefru car o'r safon gorau
- Cyswllt a'r grid wedi ei gymeradwyo gan SPN Energy
- Bydd arwyddion dwyieithog yn hyrwyddo'r Gymraeg ar y safle - yn ddatblygiad blaenllaw a pwysig i Ogledd Cymru
- Dros 100 o bobl wedi mynychu'r cyfarfod cyhoeddus; dosbarthwyd 850 o lythyrau, ac wedi i'r cynllun gael ei egluro'n llawn, derbyniwyd oddeutu 10 llythyr o wrthwynebiad gan y cyhoedd
- Bod y cynnig yn un sydd wedi ei ddatblygu yn ofalus, yn cydymffurfio yn llawn gyda pholisïau cynllunio; yn darparu seilwaith trafnidiaeth bwysig i'r ardal a Gogledd Cymru; yn gwella bioamrywiaeth a dod a manteision economaidd
- Bod y Polisi yn cefnogi'r defnydd. Y datblygiad wedi ei gynllunio yn ofalus yn y tirlun. Nid oedd gwrthwynebiadau technegol. Roedd yn cynnig gwelliant clir i fioamrywiaeth a'r datblygiad yn dod a buddion gwirioneddol i'r ardal
- Yn gofyn i'r Pwyllgor ddilyn argymhelliad y Swyddogion a chymeradwyo'r cais

c) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd yr aelod lleol, Y Cynghorydd Menna Trenholme y sylwadau canlynol

- Ei bod yn dymuno gwrthwynebu'r cais ac annog y Pwyllgor i'w wrthod.
- Yn cwestiynu os yw'r datblygiad, yn y lleoliad yma, yn cydymffurfio â'r CDLl a'r polisïau cynllunio perthnasol. Yn ei barn hi, nid oedd yn gwneud hynny.
- Y safle wedi'i leoli tu allan i'r ffin ddatblygu, mewn cefn gwlad agored; Polisi PCYFF 1 yn gosod rhagdybiaethau clir yn erbyn datblygiadau o'r fath oni bai bod cyfiawnhad cryf. Nid oedd yn credu bod yr ymgeisydd wedi profi'r angen hwnnw. Gofyn cwestiwn sylfaenol felly, a'i hwn mewn gwirionedd yw'r lleoliad mwyaf priodol ar gyfer datblygiad o'r fath?
- Os yw'r ymgeisydd yn ceisio dibynnu ar Polisi TRA 1 - Datblygiadau Rhwydwaith Cludiant, mae'r polisi yn gosod amodau clir - yn mynnu bod ardaloedd y gwasanaeth ger ochr ffordd yn cael yr effaith lleiaf posib ar amgylchedd naturiol a thirwedd, yn peidio rhwystro symudiad traffig strategol ac yn peidio tanseilio darpariaethau manwerthu mewn canolfannau presennol. Nid oedd o'r farn ei fod yn bodloni'r meini prawf hynny.
- A fyddai datblygiad o'r natur yma yn fwy addas ar safle tir llwyd neu dir a ddatblygwyd eisoes, lle mae'r isadeiledd angenrheidiol eisoes yn bodoli? Er enghraifft, mae safleoedd fel ardal Cibyn yng Nghaernarfon yn dangos bod tir sydd eisoes â chysylltiadau ffordd, gwasanaethau ac isadeiledd masnachol ar gael. Bydd defnyddio safle o'r fath yn osgoi colli tir gwyrdd, yn lleihau'r effaith ar y dirwedd ac yn cyd-fynd yn well ag egwyddorion cynllunio cynaliadwy. Nid yw'r cais wedi dangos pam mai safle cefn gwlad newydd yw'r dewis gorau pan fo dewisiadau eraill mwy priodol yn bodoli.
- Byddai colli tir gwyrdd ar gyfer datblygiad masnachol yn gam difrifol, yn enwedig pan fo dewisiadau eraill ar gael. Mae gorsafoedd tanwydd eisoes yng Nghaernarfon,

Dolydd, Bangor, Pwllheli, Porthmadog a Caeathro a nifer o bwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gael eisoes, ynghyd â digonedd o gaffis, bwytai a siopau. Nid yw'r cais yn llenwi bwlch yn y ddarpariaeth; mae'n debygol o dynnu busnes oddi wrth ddarparwyr lleol sydd eisoes yn gwasanaethu'r ardal. Yn ogystal mae gorsafoedd tanwydd yn bodoli o fewn pellter rhesymol ar hyd y A487 - o'r safle yma mae gorsaf yng Nghlynnog - 8 milltir i ffwrdd, Llys y Gwynt -10 milltir ac Y Ffor 16 milltir. O ystyried hyn ochr yn ochr â darpariaeth ym Mhwllheli, Caernarfon, Bangor a Porthmadog mae rhwydwaith gynhwysfawr eisoes yn gwasanaethu'r ardal. Nid yw'r cais yn ymateb i ddiffyg lleol nac yn darparu gwasanaeth nad yw eisoes ar gael.

- Yn groes i amcanion y CDLl, sy'n ceisio cynnal bywiogrwydd canol trefi. Bydd datblygiad masnachol mawr ar gyrion Caernarfon yn denu gwariant oddi wrth fusnesau lleol ac yn tanseilio'r gwaith sy'n cael ei wneud i gryfhau canol y dref. Yn groes hefyd i PS15 – Datblygiadau Canol Trefi a Manwerthu sy'n ceisio diogelu bywiogrwydd a hyfywdra canol trefi. Yn hytrach na denu pobl i ganol Caernarfon a'u busnesau, byddai'r datblygiad yma yn cipio gwariant pobl cyn cyrraedd y Dref
- Pryderon difrifol ynghylch traffig a diogelwch ffyrdd. Adeiladwyd ffordd osgoi Bontnewydd i dynnu traffig oddi ar y pentref, gwella diogelwch a sicrhau gwell llif ar y rhwydwaith ac nid ar gyfer denu datblygiadau masnachol newydd a fyddai'n cynhyrchu mwy o deithiau i gerbydau. A oes ystyriaeth ddigonol wedi ei roi i effaith ar y gylchfan sydd eisoes yn brysur iawn? Rhesymol yw disgwyl i gerbydau arafu a chiwio wrth droi i mewn i'r orsaf danwydd gan effeithio ar lif y traffig a chynyddu'r risg o dagfeydd a gwrthdrawiadau ar y rhwydwaith strategol. Bydd y datblygiad yn tanseilio diben y ffordd osgoi.
- Yr effaith amgylcheddol yn peri pryder - bydd adeiladu ar safle gwyrdd yn golygu colli tir amaethyddol, newid y dirwedd yn barhaol a chynyddu allyriadau oherwydd mwy o draffig. Bioamrywiaeth hefyd yn destun pryder - er y gellid cynnig mesurau lliniaru bydd datblygiad o'r maint hwn yn arwain at golli cynefin wledig ac yn cyflwyno mwy o olau artiffisial, mwy o sŵn, mwy o weithgarwch i ardal sydd ar hyn o bryd yn gymharol dawel, ac effaith ar y dirwedd a bywyd gwyllt lleol.
- Yn tynnu sylw at fater sbwriel, sy'n aml yn cael ei ddiystyru. Tystiolaeth gan Keep Britain Tidy a National Highways yn dangos bod sbwriel sy'n gysylltiedig â bwyd a diod "wrth fynd" yn broblem sylweddol ar hyd prif ffyrdd. Nid yw'r broblem yn aros o fewn ffiniau'r safle – mae profiad ledled y DU yn dangos bod pecynnau bwyd, cwpanau coffi, poteli a chaniau yn aml yn cael eu taflu ar ymylon ffyrdd, mewn gwrychoedd ac ar dir amaethyddol ymhell o'r man prynu. Er gall yr ymgeisydd ddarparu biniau ar y safle, ni all reoli ble mae defnyddwyr yn dewis taflu eu gwastraff ar ôl gadael. Mewn ardal wledig fel hon, byddai hynny'n effeithio ar gefn gwlad Bontnewydd a'r ardal gyfagos.
- Polisi MAN6 - Manwerthu yng nghefn gwlad yn rhagdybio yn erbyn datblygiadau manwerthu o'r fath oni bai y bydd yn bodloni pob un o'r meini prawf perthnasol. Nid oes busnes presennol ar y safle, safleoedd masnachol gwag ar gael yng Nghaernarfon ac amlwg byddai'r datblygiad yn cael effaith ar siopau lleol
- Pryder am effaith y datblygiad ar drigolion lleol. Byddai safle masnachol o'r maint yma yn cyflwyno mwy o oleuadau, sŵn, symudiadau cerbydau a gweithgarwch i ardal sydd ar hyn o bryd yn gefn gwlad agored.
- Cyngor Cymuned Bontnewydd wedi gwrthwynebu'r cais yn unfrydol, ac wedi cyfeirio yn fanwl at Polisi CYFF1, TRA1, PS15 MAN 6 a MAN7 fel sail gwrthwynebiadau; Cyngor Cymuned Llanwnda a Chyngor Tref Caernarfon hefyd wedi gwrthwynebu'r cais, felly tri Cyngor Cymuned / Tref yn unfrydol yn lleol yn erbyn y datblygiad. Er nad yw nifer y gwrthwynebiadau ynddo'i hun yn sail i wrthod cais, mae'n amlygu yn

glir fod y gymuned yn gweld y datblygiad fel un fydd yn newid natur yr ardal er gwaeth.

- O ystyried y broses, bod cryn amser wedi mynd heibio ers yr ymgynghoriad cyhoeddus a chwestiwn teg yn codi os yw'r wybodaeth a gasglwyd ar yr adeg hynny yn parhau yn gwbl gyfredol o ystyried yr amser sydd wedi pasio
- Siomedig bod y cais gerbron y Pwyllgor ar gyfnod mor hwyr yn y dydd. Fel Aelod Lleol byddai wedi croesawu mwy o amser i ystyried yr adroddiad terfynol a'r wybodaeth cyn gwneud penderfyniad ar ddatblygiad sydd â goblygiadau sylweddol i'r ardal.
- Bod dyletswydd ar y Pwyllgor i wneud penderfyniad yn unol â'r CDLl oni bai bod rhesymau cynllunio cryf dros wyro oddi wrtho.
- A oes gwir angen y safle hwn? Nid yw'r ymgeisydd wedi profi'r angen amdano. Mae'r safle y tu allan i'r ffin ddatblygu. Bydd y datblygiad yn niweidio cefn gwlad, yn tanseilio busnesau lleol ac yn codi pryderon gwirioneddol ynghylch traffig, diogelwch ac effaith amgylcheddol. Yn syml, nid yw'r buddion honedig yn gorbwyso'r niwed.
- Yn gofyn yn barchus i'r Pwyllgor wrthod y cais.

Nid oedd gan y Cynghorydd Cai Larsen sylwadau pellach i'w cynnig

ch) Cynigiwyd ac eiliwyd gwrthod y cais yn groes i'r argymhelliad

Rhesymau:

- Nad oedd y bwriad yn gwbl cyd-fynd ag egwyddorion cynaliadwyedd polisi PS6
- Byddai'n cael effaith andwyol ar fwynderau'r ardal a thrigolion cyfagos a hynny yn groes i faen prawf 7 polisi PCYFF 2
- Byddai'r bwriad yn cael effaith weledol andwyol a hynny yn groes i bolisi PCYFF 3
- Nid yw'r cynnig ar gyfer lliniaru effaith y bwriad o ran bioamrywiaeth na'r gwelliannau bioamrywiaeth yn ddigonol ac felly yn groes i ofynion polisi PS19.

d) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:

- Bod ystadegau'r Llywodraeth yn y galw am danwydd ffosil yn amlygu llai o ddefnydd yn dilyn rheoliadau carbon i'r dyfodol a chynnydd mewn defnydd ceir trydan – felly dim yn gweld yr angen yn ôl Polisïau PCYFF5, PS4, PS5 a PS6. Os bydd angen, adnodd gwefru yn unig fydd ei angen.
- Cydnabod y bydd gorsaf o'r fath yn creu sbwriel ar hyd y lonydd ac yn mynd i achosi costau i'r Cyngor
- Dim yn cytuno gyda'r datganiad 'ymateb i'r galw presennol' – bod gorsafoedd a busnesau lleol ar hyd y ffordd fyddai'n falch o'r busnes, felly onid y dylid annog a hyrwyddo'r busnesau lleol sydd yn darparu'r gwasanaeth presennol - rhain yn orsafoedd mewn cymunedau lleol sydd yn cymryd balchder o'u busnesau - angen annog yn hytrach nag adeiladu o'r newydd
- Byddai'n creu effaith weledol ar fwynderau trigolion cyfagos
- Yr orsaf yn debygol o gael ei labelu fel yr un olaf ar y ffordd ac felly yn atal pobl rhag defnyddio gorsafoedd eraill
- Bod yr angen yn cael ei ddiwallu gan yr hyn sydd yn bodoli yn barod
- Gorsafoedd EV yn cael eu datblygu gan y Cyngor ac yn parhau i gael problemau isadeiledd - sut felly fyddwn yn gwybod os bydd y rhain am lwyddo?
- Bod gorsaf gymunedol wedi ei datblygu yng Nghlynnog - yr orsaf wedi adfywio'r pentref - byddai'r datblygiad yma yn cael effaith ar yr orsaf honno ac eraill yn lleol.
- Bod y Cynghorau Cymuned perthnasol yn unfrydol wedi gwrthwynebu yn chwyrn a'r rhesymeg dros eu gwrthwynebiadau yn deg

- PCYFF1 - y bwriad wedi ei leoli tu allan i'r ffin datblygu -nid yw'n lleoliad 'eithriadol'
- PCYFF1 - bod digon o ddarpariaeth yn yr ardal felly angen herio'r angen ac ystyried yr effaith gronnol
- Polisi Manwerthu 6 - byddai'r uned manwerthu a'r orsaf danwydd yn fygythiad i fusnesau lleol
- Polisi Manwerthu 7 - bydd cynnydd mewn sbwriel a sŵn ar ochr y lonydd a chynnydd mewn sŵn a llygredd golau
- Bod angen gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol - y bwriad yn groes i Bolisi 19 - effaith y datblygiad ar fioamrywiaeth - y mesurau lliniaru a'r gwaith gwella yn annigonol
- Yn creu effaith annerbyniol ar fwynderau gweledol yr ardal - yn groes i PCYFF3
- Pam gwrthod cais Muriau Park ond caniatáu Meifod? Ymddengys bod swyddogion wedi troi pob carreg i wrthod cais Muriau Park, ond yn gwneud pob ymgais i droi pob carreg i ganiatáu Meifod
- O ystyried costau byw a thanwydd presennol, a'i teg yw caniatáu safle ble mae tanwydd yn ddrytach na gorsafoedd lleol?
- Effaith ymwthiol ar y dirwedd leol - nid yw'r lleoliad yn addas i'r datblygiad
- Bod y lleoliad a'r gylchfan eisoes yn un prysur - sut gellid cyfiawnhau ychwanegu mwy o draffig?
- Wedi ei leoli ar dir amaeth defnyddiol a da – dim eisiau colli tir da
- Bod offer pweru EV yn ymddangos ymhob man bellach - nid oes angen iddynt fod mewn gorsaf danwydd - gellid eu gosod yn unrhyw le.

Amlygodd y Rheolwr Cynllunio bod y bwriad yn cynnwys cymysgedd o gynigion megis darpariaeth tanwydd ffosil, gwefru EV, darpariaeth parcio a theithio, ac felly anodd fyddai tystiolaethu yn groes i hyn gan fod y bwriad yn darparu ar gyfer yr angen ar hyn o bryd. Ategodd bod ymgynghorwyr wedi ymateb yn ddiwrthwynebiad i'r bwriad yng nghyd-destun yr angen, ond bod rhai materion yn rai o farn - effaith weledol ac effaith ar fwynderau. Nodwyd nad oedd unrhyw un o'r polisïau yn gofyn i brofi'r angen ar gyfer y datblygiad. Ategodd bod Polisi TRA1 yn addas os yw'r datblygiad yn agos i briffordd sydd yn darparu ar gyfer gyrwyr, a PS 4 yn addas os yw'r datblygiad yn darparu gwasanaeth cludiant ac adnabod cyfleoedd teithio gwahanol - yn awgrymu i'r Pwyllgor ystyried y lleoliad yn hytrach na'r angen.

Nododd nad oedd Polisi PCYFF 1 yn gwrthwynebu datblygiadau tu allan i'r ffin, oni bai y bydd yn cydymffurfio â pholisïau eraill, e.e., yng nghyd-destun y cais yma, ystyriwyd addasrwydd y datblygiad yma tu allan i'r ffin oherwydd bod gofynion Polisi TRA1 yn nodi'r angen i'r datblygiad fod yn agos i briffordd ac yn darparu gwasanaeth ar gyfer gyrwyr y briffordd hynny. O ganlyniad, bydd yn cydymffurfio a Polisi PCYFF1. O ran effaith ar ganolfannau lleol eraill, ystyriwyd nad oedd maint y siop yn berthnasol gan ei fod yn atodol i'r datblygiad ac felly ni fyddai'n cael effaith ar fusnesau'r dref a'r pentrefi cyfagos; yn awgrymu i'r Pwyllgor i beidio ystyried y mater yma fel gwrthwynebiad, onibai bod tystiolaeth berthnasol i gefnogi hynny.

**PENDERFYNWYD: Gwrthod yn groes i'r argymhelliad**
**Rhesymau:**

1. **Nid yw'r bwriad yn gwbl cyd-fynd gydag egwyddorion cynaliadwyedd - yn unol â Polisi PS6**
2. **Bod y bwriad yn cael effaith andwyol ar fwynderau'r ardal a thrigolion cyfagos - yn groes i faen prawf 7 polisi PCYFF 2**
3. **Bod y bwriad yn cael effaith weledol andwyol - yn groes i bolisi PCYFF 3**

**4.** **Nid yw'r cynnig ar gyfer lliniaru effaith y bwriad o ran bioamrywiaeth na'r gwelliannau bioamrywiaeth yn ddigonol - yn groes i ofynion polisi PS19.**

Dechreuodd y cyfarfod am 13.00 a daeth i ben am 15:00

**CADEIRYDD**